Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Ysgol Uwchradd Prestatyn
2 Princes Avenue
Prestatyn
LL19 8RS

18/11/2025

Annwyl arweinwyr a staff

**Ymweliad interim:** Tachwedd 2025

Diolch am eich cefnogaeth â'r ymweliad interim â'r ysgol ar 5 a 6 Tachwedd 2025. Fe wnaethom fwynhau'r cyfle i gyfarfod â chi, eich staff a'ch disgyblion a chlywed mwy am sut mae'r ysgol wedi ymateb i'r argymhellion a wnaed gan Estyn yn ystod yr arolygiad craidd yn 2023. Roedd yn bleser gweld y ffordd y gwnaeth eich staff groesawu'r broses a'u natur agored yn ystod trafodaethau.

Yn ystod ein hymweliad, cawsom gyfle i:

- Gyfarfod ag arweinwyr i drafod eu gwaith ar gryfhau'r ddarpariaeth i ddatblygu medrau disgyblion yn raddol.
- Siarad ag arweinwyr am sut maent yn gwerthuso eu gwaith eu hunain ac yn cynllunio ar gyfer gwella.
- Siarad â disgyblion a chlywed eu hadborth am yr ysgol.
- Ymweld â gwersi mewn amrywiaeth o bynciau i weld disgyblion a staff wrth eu gwaith.
- Craffu ar sampl o waith disgyblion.
- Cynnal gweithgareddau craffu ar waith ac arsylwi gwersi ar y cyd ag arweinwyr a thrafod prif ganfyddiadau'r gweithgareddau hyn.

## Ffocws yr ymweliad

### Cryfhau prosesau gwerthuso a gwella fel bod arweinwyr yn meddu ar ddealltwriaeth fwy manwl gywir o effaith eu gwaith, yn enwedig effaith yr addysgu ar ddysgu

Yn ystod yr ymweliad, clywsom sut mae'r ysgol wedi mireinio ei phrosesau hunanwerthuso a gwella ers yr arolygiad craidd. Yn ein trafodaethau, roedd yn amlwg bod

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd, CF24 5JW Ffôn: 02920 446446 ymholiadau@estyn.llyw.cymru www.estyn.llyw.cymru

Estyn, Anchor Court, Keen Road, Cardiff, CF24 5JW Telephone: 02920 446446 enquiries@estyn.gov.wales www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

blaenoriaethau gwella presennol yr ysgol yn cael eu llywio gan weithgareddau hunanwerthuso'r ysgol. Roedd yn ddiddorol clywed sut mae arweinwyr wedi symud oddi wrth ddulliau sydd wedi'u llywio gan farnau, a oedd yn annog cydymffurfiaeth gynt. Erbyn hyn, maent yn dechrau canolbwyntio ar ddeall yn fwy manwl effaith addysgu a chymorth lles ar ddysgu a chynnydd disgyblion. Esboniodd arweinwyr sut mae'r newid hwn mewn ffocws yn eu helpu i werthuso cynnydd yn erbyn blaenoriaethau strategol yr ysgol yn fwy cadarn. Yn ein trafodaethau â staff, nodom fod hyn yn helpu i greu diwylliant lle mae hunanwerthuso'n cael ei ddeall fel proses barhaus a chydweithredol sydd â'r nod o wella deilliannau i ddisgyblion.

Nodom fod arweiniad gwerthfawr ar gael erbyn hyn i gefnogi hunanwerthuso ar gyfer arweinwyr ar bob lefel, ochr yn ochr â chalendr sicrhau ansawdd a dysgu proffesiynol sydd wedi'i lunio'n dda. Mae'r trefniadau hyn yn cynnig strwythur ac eglurder defnyddiol i staff. Roedd yn bleser clywed sut mae arweinwyr canol wedi datblygu mwy o berchnogaeth dros gynllunio gwelliant adrannol, gan ddefnyddio ystod eang o dystiolaeth i nodi blaenoriaethau a gweithredu'n rhagweithiol i sicrhau gwelliannau mewn addysgu a dysgu. Rhannodd arweinwyr enghreifftiau clir o sut mae'r dulliau hyn yn effeithio ar arfer yn yr ystafell ddosbarth; er enghraifft, holi gwell mewn gwyddoniaeth, modelu gwell mewn Saesneg a gwaith yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â bylchau rhwng y rhywiau mewn mathemateg. Er bod arweinwyr yn cydnabod y cynnydd a wnaed, maent hefyd yn ymwybodol bod rhywfaint o amrywiad o hyd o ran pa mor gyson y mae staff ar bob lefel yn gwerthuso effaith addysgu ar ddysgu.

Teimlwn y byddai'n dda i arweinwyr ystyried:

- Sut gall yr ysgol sicrhau mwy o gysondeb yn y ffordd y mae arweinwyr ar bob lefel yn gwerthuso effaith addysgu ar ddysgu disgyblion?
- Sut gall arweinwyr fireinio meini prawf llwyddiant fel eu bod yn mesur effaith strategaethau gwella yn fwy manwl gywir?

## Cryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau disgyblion yn raddol

Yn ystod yr ymweliad, clywsom sut mae'r ysgol wedi parhau i ganolbwyntio ar wella darpariaeth i ddatblygu medrau disgyblion yn raddol. Mae arweinwyr wedi creu diwylliant lle mae'r holl staff yn gwerthuso eu harfer ac yn myfyrio arni i wella hyn ymhellach.

Trafododd arweinwyr ystod y gweithgareddau sicrhau ansawdd y maent yn eu cynnal â ni, gan gynnwys arsylwi gwersi, teithiau dysgu a chraffu ar waith disgyblion. Clywsom sut mae'r gweithgareddau hyn yn llywio gwybodaeth arweinwyr am y ddarpariaeth. Yna, ystyriom a allai fod ffocws craffach ar yr effaith y mae darpariaeth yn ei chael ar ddatblygu medrau disgyblion a sut gallai hyn fod yn ddefnyddiol wrth gynllunio'n fanwl ar gyfer rhagor o welliannau.

Rhannodd arweinwyr eu barn am ba mor dda, neu fel arall, y mae staff wedi arddel yr angen i ddatblygu medrau disgyblion ochr yn ochr â'u gwybodaeth. Roedd yn ddiddorol clywed sut roedd arweinwyr wedi nodi'r glir lle cefnogwyd dulliau o wella ysgrifennu disgyblion, er enghraifft trwy leihau'r defnydd o daflenni gwaith sy'n cyfyngu ar gyfleoedd iddynt ysgrifennu am hyd priodol. Ar hyn o bryd, mae'r ysgol hefyd yn blaenoriaethu darllen ac yn cefnogi diwylliant o ddarllen trwy gyfleoedd dysgu proffesiynol i staff a phenodi cydlynydd darllen. Rhannodd arweinwyr â ni sut maent yn parhau i ganolbwyntio ar ddarparu cyfleoedd dilys i ddisgyblion ddatblygu eu medrau, sy'n cael ei gefnogi gan ymagwedd gyson tuag at addysgu agweddau penodol, gan gynnwys llunio a defnyddio graffiau.

Teimlwn y byddai'n dda i arweinwyr ystyried:

- A yw prosesau sicrhau ansawdd yn canolbwyntio'n ddigon da ar yr effaith y mae darpariaeth yn ei chael ar ddatblygu medrau disgyblion?
- A yw hyn yn effeithio ar gywirdeb cynllunio gwelliant a dysgu proffesiynol?

Diolch i chi unwaith eto am eich holl gymorth wrth gynllunio a threfnu ein hymweliad. Dymunwn yn dda i chi â'ch datblygiadau yn y dyfodol.

Gellir dod o hyd adroddiad arolygiad craidd diweddaraf yr ysgol a rhagor o wybodaeth am broses a diben ymweliadau interim ar ein gwefan:
https://www.estyn.llyw.cymru/darparwyr/prestatyn-high-school-cy/

Yn gywir

L Jones

**Lowri Jones**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol Dros Dro